

Croeso

Croeso i atodiad mis Mehefin o'r cylchlythyr gan Y Gweithfeydd. Diben y cylchlythyr yw eich hysbysu am gynnydd y contractwyr presennol yn Y Gweithfeydd. Bydd y rhifyn hwn yn eich diweddarau am y safle yng nghyswllt y gwaith a wneir yng nghyswllt y prosiectau dilynol:

- Adeilad REGAIN
- Y Seilwaith
- Swyddfeydd Cyffredinol
- Canolfan Hamdden
- Hafan Dysgu

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i drefnu taith yn Y Gweithfeydd a gweld y cynnydd drosoch eich hun.

Cartrefi Dyfodol Cymru

Mae'r pedwerydd tŷ ym mhrosiect Cartrefi Dyfodol Cymru bellach wedi ei orffen. Mae'r Tŷ Calch yn dŷ dwy ystafell wely ac ef yw'r ail dŷ gydag achrediad dim carbon yn Y Gweithfeydd. Mae cyflenwyr a chynnyrch o Gymru wedi'i wneud yn un o'r cartrefi mwyaf effeithiol o ran ynni yn y Deyrnas Unedig.


Mae prosiect Cartrefi Dyfodol Cymru yn ddatblygiad tai sy'n dangos cartrefi ynni isel. Maent yn unigryw ac yn sefydlu Glynebwy fel canolfan diwydiant eco newydd yng Nghymru ac yn ysbrydoli cenhedlaeth o dai sy'n gosod safonau newydd o ran effeithiolrwydd ynni a hefyd yn fforddiadwy a rhad iawn eu rhedeg.

Yn ddiweddar enillodd y Tŷ Llarwydd yn y prosiect wobr bwysig gan Sefydliad Brenhinol Syrfeyr Siartredig Cymru (RICS). Ystyrir hyn yn eang fel y prif ddyfarniad ym maes eco-adeiladu.



Willmott Dixon yn ennill teitl Contractwr y Flwyddyn

Mae Willmott Dixon wedi ennill y brif wobr yng ngwobrau Building Magazine ar gyfer Contractwr Mawr y Flwyddyn. Mae'r contractwr yn ymwneud â'r Swyddfeydd Cyffredinol newydd a'r Ganolfan Hamdden newydd. Dywedwyd mai gwaith caled y tîm, ymrwymiad parhaus i arloesedd a dull gweithredu cynaliadwy oedd y rhesymau am ddyfarnu'r teitl pwysig i'r cwmni.



Croeso i'n cylchlythyr diweddariad cyntaf



Cyflwyniad

Lleihau'r effaith tŷ gwydr drwy reolaeth ddiwydiannol amgen yw nod pennaf y prosiect Regain. Briff y prosiect yw creu uned i feithrin busnes wedi ei hadeiladu'n benodol ar gyfer archwilio ac arddangos agweddau ehangaf dylunio cynaliadwy.

Bydd yr adeilad Regain yn un o bedwar adeilad peilot yn Ewrop. Mae'r adeiladau eraill wedi eu lleoli yng Ngwlad Belg, Ffrainc a'r Alban.

Bydd y gwaith adeiladu'n bodloni safonau Ardderchog BREEAM a bydd yr adeilad newydd un llawr yn cynnwys 8 o unedau busnes dechreuol bach dros arwynebedd llawr o 450m².

Datblygiadau Diweddaraif

- Mae'r adeilad yn awr yn cyrraedd lefel gwarblat
- Mae'r isadeiledd – cwteri a gwasanaethau – yn cael eu gosod a bydd hyn yn parhau dros yr wythnosau nesaf.



I ddod yn fuan

- Bydd y paneli to pren yn cael eu codi i'w lle yn ystod y pythefnos nesaf a bydd y to gwyrdd gorffenedig yn dilyn.
- Bydd y gwaith o osod y ffenestri'n dechrau'n fuan a bydd yr adeilad yn ddwrglos ac yn gwrthsefyll y tywydd erbyn diwedd yr haf.
- Bydd gwaith celf gan ddisgyblion ysgolion lleol yn addurno'r palis sydd yn rhannol amgylchynu perimedr y safle.

O fudd i'r Gymuned

Fel rhan o'n Cynllun Budd i'r Gymuned gyda Blaenau Gwent, rydym wedi cydweithredu gydag ysgolion lleol er mwyn cynhyrchu **gwaith celf ar gyfer ein palis allanol**. Cadwch olwg ar y man hwn – bydd y gwaith celf yn cael ei osod yn fuan.

busnes
yn y
gymuned

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn **sgyrsiau ar lechyd a Diogelwch** yn yr ysgolion lleol ac roedd gennym standin yn Niwrnod Agored Cartrefi Dyfodol Cymru.

Adeiladwyr Ystyriol



Mae'r prosiect hwn, ynghyd â phob un o brosiectau Kier, wedi ei gofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol, sef cynllun sydd yn hyrwyddo lleihau effaith safleoedd adeiladu ar y gymuned leol a'r ardaloedd amgylchynol. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau allai fod gennych. Mae Neil a'i dîm bob amser yn hapus i drafod unrhyw broblemau, felly mae croeso i chi gysylltu â nhw.

Neil.Bowen@kier.co.uk

S: 07967 575524



Croeso i'n cylchlythyr diweddariad cyntaf

Mae cwmni Morrison Construction yn falch dros ben i fod ar safle'r Gweithfeydd yn adeiladu rhan o'r seilwaith pwysicaf. Wedi dechrau ar yr safle yn mis Chwefror, mae y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda.

Mae hyn yn cynnwys darparu rhwydwaith o ffyrdd, gosod prif wasanaethau a datblygu seilwaith dan ddaear fydd yn cynorthwyo adeiladau cyhoeddus ar y safle i fod yn effeithiol o ran ynni.

Bydd y contract hollbwysig hwn hefyd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau fydd yn galluogi'r prosiectau sy'n cael eu hadeiladu a/neu eu hadnewyddu i fod ar agor i'r cyhoedd yn y dyfodol agos.

Hefyd i'w ddatblygu mae rhwydwaith pibelli gwresogi'r ardal a gaiff ei gynnwys o fewn seilwaith y ffyrdd a'i gysylltu i ganolfan ynni fydd yn darparu gwres a phŵer i adeiladau cyhoeddus yn y lle cyntaf.



Mae y system yn effeithiol o ran ynni a bydd felly yn cynorthwyo safle Y Gweithfeydd i gyrraedd ei darged o ostwng ei ôl-troed carbon hyd at 60%, un o'r lluo o amcanion sydd eu hangen i sicrhau Y Gweithfeydd fel patrwm cynaliadwy.

Fe fydd y rhan hyn o'r gwaith yn gweld cyswllt pwysig yn cael ei wneud o'r Gweithfeydd i'r ffyrdd presennol yn cynnwys:-

- Ffordd i gysylltu gyda Steelworks Road (i'r de o'r bwa mawr ger Cae Ffwrnais ag yn bellach i'r de wrth Ty Llwyn).
- Bydd ffordd newydd o Ysbyty Aneurin Bevan trwy'r safle a chreu cyffordd newydd gyda'r A4046 (ger Holland Street).

Gwaith mewn llaw

- Mae'r gwaith i'r gyffordd gyda'r A4046 yn datblygu'n dda, ag mae'n posib ei weld yn glir o'r ardal gerllaw.
- Mae'r gyffordd gyda'r A4046 yn cael ei adeiladu yn gyfan o ddefnydd sydd wedi ei ailgylchu o'r safle ag fellu yn cynorthwyo amcanion cynaliadwyedd Y Gweithfeydd



Sylwadau:

A4046: Mae golau traffig dros dro yn ei lle yn barod ac fe fydd y gwaith ar y gyffordd newydd yn parhau hyd ganol mis Medi.

Cysylltwch:

Morrison Construction
Justin Webb
Ff. 01792 781 450
S. 07918 640 199

Meysydd Chwaraeon- Canolfan Hamdden Newydd

Dechreuodd y gwaith ddiwedd mis Mawrth ar safle'r Meysydd Chwaraeon newydd a fydd yn gwasanaethu Canolfan Hamdden newydd Glynebwy

Efallai bod y llun yn dangos rhywbeth sy'n edrych fel cae ond mewn gwirionedd mae hyn yn ganlyniad i ymarfer torri a llenwi er mwyn dod â'r safle i lefel ffurfiant. Mae'r gwaith cyfan yn cadw at ddulliau sy'n garedig i'r amgylchedd, ac un agwedd ar hynny yw osgoi symud pridd o'r safle.

I'r perwyl hwnnw, bydd unrhyw ddeunydd ychwanegol yr ydym yn ei gael ar y safle yn cael ei ddefnyddio arall lle yn y cyfansoddyn i rywun arall i gronni y ddaear. Ag 'r doli a lanw ymarfer ddibenedig, gweithia began achâ'r draeniad chan 'r safle a ewyllysia cadarnha'r pitches gwisga t d llawn dwr a anefnyddiol yn ystod atalnodaau chan 'n ddrwg dywydd i mewn 'r ddyfodol. Mae'r gwaelodion a'r tiwbiau ar gyfer y llifoleuadau a'r goleuadau stryd ar y gweill a byddwn wedyn yn parhau i ffensiō cyn rhoi wyneb ar y caeau yn y pen draw.

Fel yn arfaethu arddelwyd achos 'r Hamdden Canola yn adeiladu dydy gobeithiedig a gweithia ewyllysia ddechrau achâ 'n anhydwr.



Ailwampio'r Swyddfeydd Cyffredinol



Mae'r gwaith ar y Swyddfeydd Cyffredinol bron wedi'i gwblhau. Bydd Swyddfa Cofnodion Gwent ac Ymddiriedolaeth Archifau Gwaith Dur Glynebwy yn adleoli i'r adeilad, a fydd yn agored i'r cyhoedd ym mis Hydref. Atyniad cyffrous i ymwelwyr o'r enw 3000° - Bydd The Valleys Genealogy and Heritage Experience yn agor yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.

Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol ar y safle. Mae'r Estyniad i'w weld yn y llun, ac mae'n cynnwys y swm trawiadol o 10km o silffoedd i ddal holl gofnodion Swyddfeydd Cofnodion Gwent. Mae'r gwaith ailwampio wedi mynd yn ei flaen yn arwyddocaol, ac mae'r grisiau carreg trawiadol wedi cael ei adfer erbyn hyn. Mae'r gwaith allanol wedi dechrau ers tro, a bydd y manau cyhoeddus yn lleoliadau cyffrous a bywiog.

Y Parth Dysgu

ADOLYGU CYNNYDD

Mae Leadbitter bellach hanner ffordd trwy ffrâm amser adeiladwaith campws y Parth Dysgu sydd werth £27.5 miliwn a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai 2012.

Gyda'r ffrâm goncrit wedi ei chwblhau, mae'r gwaith o osod y to dur, cladin wal a'r 7400 metr sgwâr o waith brics eisoes wedi dechrau. Mae gan y Parth Dysgu 13,300 metr sgwâr o arwynebedd llawr y gellir ei ddefnyddio, wedi ei rannu dros 4 llawr, ynghyd â gerddi ar y to.



CYFLOGAETH A PHRENTISIAID

Mae dros 350 o bobl wedi bod ynghlwm â'r safle ar wahanol gamau o'r project adeiladu dros y 12 mis diwethaf:

- Mae 39% o'r gweithwyr a'r staff yn byw o fewn 20 milltir o'r safle.
- Mae hyn yn cynnwys 2 fyfyrwr Gosod Briciau o Goleg Gwent yng Nglyn Ebwy sydd wedi ennill prentisiaeth ar y safle.

Mae cyfleodd pellach o ran prentisiaeth, hyfforddiant a phrofiad gwaith gan gynnwys gwaith coed, gwaith plymwr ac addurno, wrth i gamau nesaf y gwaith gychwyn dros y misoedd nesaf.

BUDDIANNAU I GWMNIAU LLEOL

Mae Leadbitter yn gweithio'n galed i sicrhau bod contractwyr a chyflenwyr lleol yn cael cyfle i dendro am waith ar y project.

- Mae gwerth £15 miliwn o gontractau gwaith wedi eu gosod hyd yma
- Mae £13 miliwn yn mynd yn syth i gwmnïau yng Nghymru
- Mae gwerth £2 miliwn o gontractau yn mynd yn syth i gwmnïau lleol

Mae isgontractwyr a chyflenwyr lleol hefyd yn elwa mewn ffyrdd eraill o ganlyniad i'r cais i ganolbwyntio ar ffynonellau lleol:

Mae dros 7000 m³ o goncrit sydd yn werth dros £500,000 wedi ei ddefnyddio yn y gwaith stancio, gwaith llawr a'r ffrâm. Cafodd ei gyflenwi gan gwmnïau yng Nglyn Ebwy a Thredegar gan gefnogi mwy o swyddi lleol yn uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
Nick Toulson, Cydlynnydd y Gymuned a
Hyfforddiant Leadbitter
Swyddfa'r Safle: 01495 301511
Ffôn symudol: 07979 378 869
E-bost: nicktoulson@leadbitter.co.uk
Gwefan: www.leadbitter.co.uk



Adolygu Cynnydd Mai 2011

Diwrnod Agored yn Y Gweithfeydd yn Llwyddiant

Trefnodd Y Gweithfeydd ddiwrnod agored yn ddiweddar ar gyfer aelodau'r cyhoedd i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y cynllun a chyfle i siarad gyda'r contractwyr sydd wrthi'n datblygu'r prosiect cyffrous yn Y Gweithfeydd. Fe'i cynhaliwyd ym mhrosiect Cartrefi Dyfodol Cymru. Mae'r contractwyr a gymerodd ran yn cynnwys Morrison Construction, Kier, Lead Bitter a Willmott Dixon. Denodd y digwyddiad llwyddiannus nifer o bobl o gymuned Blaenau Gwent.

Cwrdd â'r Cyndogion

Y cyfle nesaf i'r gymuned i gwrdd â'r contractwyr fydd:

Dydd Iau 29 Medi 2011
2.00pm – 7.30pm
Lleoliad: Canolfan Adnoddau Amgylcheddol, Heol Gwaith Dur, Tŷ Llwyn.

Mae hyn yn gyfle i ganfod beth yw'r Ganolfan Adnoddau Amgylcheddol. Gall fod cyfle i ymweld â safle adeiladu'r ysgol gynradd newydd ar y Felin Boeth (os yw'r tywydd a gweithgareddau adeiladu yn caniatáu. Gofynnir i chi wisgo esgidiau cadarn a chall a chôt sy'n dal dŵr).

Dewch i ymweld â'r Gweithfeydd

Archebwch le ar daith o'r Gweithfeydd ac ymweliad i Gartrefi Dyfodol Cymru

Dewch i weld y cynnydd drosoch eich hunan a threfnu ymweliad mewn 4x4 fydd yn mynd â chi o amgylch y safle.

Mae Cartrefi Dyfodol Cymru hefyd ar agor i aelodau'r cyhoedd i ymweld â hwy a gweld sut olwg all fod ar gartrefi'r dyfodol. Mae'r cartrefi effeithiol o ran ynni hyn yn unigryw i Lynebwy.

Mae teithiau o'r safle ac ymweliadau i'r cartrefi ar gael.

Dyddiau Llun – dyddiau Gwener drwy apwyntiad yn unig.

Cysylltwch â'r Swyddfa Prosiect i drefnu eich ymweliad i'r Gweithfeydd a Chartrefi Dyfodol

Canolfan Adnoddau Amgylcheddol

Mae'r Ganolfan yn Y Gweithfeydd ar agor a chaiff ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent. I gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau sydd ar y gweill a'r hyn y medrwyd ei wneud yn y Ganolfan cysylltwch â:



Ff: 01495 307525

www.gwentwildlife.org

Oriau Agor:

Dyddiau Llun – Dyddiau Iau, 9am – 4pm

Gweithio i Leihau Ymyriad

Gyda'r gwaith parhaus, byddwn yn ceisio lleihau ymyriadau i chi. Cysylltwch â Swyddfa'r Prosiect os oes angen i chi gysylltu â ni ar unrhyw faterion.

Bydd contractwyr yn gweithio gyda chi i'ch hysbysu os yw unrhyw waith yn debygol o achosi ymyriad yn eich ardal.

Manylion Cyswllt

Os ydych angen gwybodaeth am y prosiect, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Y Gweithfeydd: Swyddfa Prosiect

Ff: 01495 353300

Kier:

Neil Bowen

S: 07967 575524

Willmot Dixon:

•Swyddfeydd Cyffredinol
Andy Miles

S: 07973 576215

•Canolfan Hamdden
Caoilfhionn de Buitlear
S: 07973 127054

Morrison Construction:

Justin Webb

Ff: 01792 781 450

Leadbitter:

Nick Toulson

Ff: 01495 301511